Duw y Deyrnas

Adnodau agoriadol:

"Gofynnwyd iddo gan y Phariseaid pryd y deuai teyrnas Dduw. Atebodd Iesu, "Nid rhywbeth i wylio amdano yw dyfodiad teyrnas Dduw. Ni bydd dynion yn dweud, 'Dyma hi', neu 'Dacw hi'; edrychwch y mae teyrnas Dduw yn eich plith chwi." Ac meddai wrth ei ddisgyblion, 'Daw dyddiau pan fyddwch yn dyheu am gael gweld un o ddyddiau Mab y Dyn, ac ni welwch mohono. Dywedant wrthych, 'Dacw ef', neu 'Dyma ef'; peidiwch â mynd, peidiwch â rhedeg ar eu hôl. Oherwydd fel y fellten sy'n fflachio o'r naill gwr o'r nef hyd y llall, felly y bydd Mab y Dyn yn ei ddydd ef.'" Luc 17: 20 – 24

Geiriau agoriadol:

Nid lle na thiriogaeth yw teyrnas Dduw, ond yn hytrach ei deyrnasiad ef yng nghalonnau ei bobl, yn dwyn gweithredoedd, eu meddyliau, eu geiriau, eu cymhellion a'u teimladau, o dan reolaeth ei gariad.

Mewn distawrwydd addolgar gofynnwch i Dduw deyrnasu dros bob rhan o'ch bywyd, yn enwedig y rhannau hynny sy'n amharod i blygu i'w arglwyddiaeth.....

Gweddïau agoriadol:

Iesu,
Athro ac Arweinydd,
rho i ni glustiau i glywed,
llygaid i weld
a meddyliau i ddeall
agosrwydd a realrwydd dy deyrnas
ynom ac yn ein plith.

Achub ni rhag y diffyg ffydd
sy'n ystyried fod gofynion y deyrnas
y tu hwnt i'n cyrraedd.
Achub ni rhag yr ofn

sy'n ein rhwystro rhag ymddiried
yng ngrym dy addewidion.

Achub ni rhag y dallineb
sy'n methu gwahaniaethu
rhwng y drwg a'r da.
Achub ni rhag yr hunanoldeb
sy'n rhoi ein lles
a'n hapusrwydd ein hunain
o flaen deddfau'r deyrnas
ac anghenion eraill.

Tyrd atom
i deyrnasu yn ein mysg:
yn ein cartrefi,
yn ein heglwysi,
yn ein gwlad.
A phan ddaw y dydd
na fydd ynom gasineb at neb,
nac awydd i flaenori ar neb,
nac eiddigedd o lwyddiant neb,
ond cariad a gofal am eraill
ac ufudd-dod i'th ewyllys di –
yna, bydd dy deyrnas
yn ein mysg yn wir
ar y ddaear fel yn y nef. Amen.

Emyn: 242 Caneuon Ffydd.

Darllen:
Dull Iesu o gyfathrebu a dysgu oedd trwy ddamhegion. Mae nifer ohonyn nhw i'w cael gyda'i gilydd ym Mathew 13. Gwrandawn ar dair o'r damhegion hyn. Gwrandewch nid yn unig â'ch clustiau ond â'ch calon.

Mathew 13: 1 – 9
Mathew 13: 24 – 30

Mathew 13: 31 – 32.

Cefndir:

Beth sy'n gyffredin yn y damhegion hyn? Mae pob un ohonyn nhw yn cynnwys rhyw elfen guddiedig. Mae'r had yn nameg yr Heuwr, yn guddiedig ar y cychwyn, ond yn blaguro i ddwyn ffrwyth ar ei ganfed. Mae'r efrau (chwyn) hefyd yn guddiedig ymhlith y gwenith. Mae'n nhw mor debyg i'r gwenith fel nad oes modd gwahaniaethu rhyngddyn nhw. Yn awr, ar awr y cynhaeaf yn unig y gellir eu hadnabod. Cuddiedig, hefyd, ydi'r hedyn mwstard yn y pridd ond mae ei botensial yn fawr – bydd yn tyfu'n goeden lle bydd adar y nefoedd yn dod ac yn nythu yn ei changhennau. Yn yr un modd mae'r lefain a'r trysor sydd yng ngweddill y bennod yn bethau cuddiedig. Mae'r ail adrodd yma mor bŵerus a chyson fel bo'n werth i ni ei ystyried.

Nodwedd arall amlwg yw'r elfen o'r annisgwyl. Mae'r cynhaeaf yn fawr, mae'r efrau yn ein synnu gan gymaint ohonyn nhw oedd yn tyfu'n y maes a'r un modd, y syndod fod hedyn mor fach yn tyfu'n goeden anferth.

Mae'r damhegion yn cuddio'r neges er mwyn i ni wneud mwy na gwrando gyda'n clustiau ar lefel lythrennol; mae'n rhaid i ni fynd gam ymhellach a darganfod yr hyn sydd ynghudd ynddyn nhw.

Dyna ddigwyddodd i'r disgyblion. Doedden nhw ddim yn deall Iesu ar y dechrau, felly mae'n nhw'n awyddus i ddeall mwy, a'u cwestiwn yw, "Pam yr wyt yn siarad wrthynt ar ddamhegion?" Mathew 13: 10, nid "Beth wyt ti'n geisio'i ddweud trwy'r damhegion." Mae damhegion yn arwain y gwrandawyr i amgylchfyd gwahanol. Os mai nod Iesu oedd creu perthynas ryngweithiol yna mae ei ffordd o ddysgu wedi llwyddo, lle buasai atebion slic ac ystyron clir a phendant wedi methu. O dderbyn atebion clir byddai'r gwrandawyr wedi clywed a deall ac wedi mynd ar eu hynt yn annibynnol ar eu hathro. Ond mae dameg yn eu gorfodi i ofyn cwestiynau ac felly yn eu gwneud yn fwy dibynnol ar yr athro.

Gallwch ymateb i'r damhegion mewn dwy ffordd. Un ffordd yw dweud nad ydych yn deall a gwrthod neges y ddameg, a'r ffordd arall yw ymateb mewn gwyleidd-dra ac yn awyddus i ddeall mwy. Gall y

damhegion ein trawsnewid a'n gwneud yn bobl ryngweithiol, wylaidd, ymchwilgar a dyfalbarhaus.

I ddod yn ôl at ateb Iesu i'r cwestiwn yn adnod 10, "Pam yr wyt yn siarad ar ddamhegion?", ei ateb yw ein bod yn gyfranogion o rodd werthfawr, "I chwi y mae gwybod cyfrinachau teyrnas nefoedd wedi ei roi" Mathew 13: 11.

Mae Iesu, felly, yn annog ei wrandawyr i gynnal deialog cyson rhyngddynt ag ef a'u hannog i archwilio tir newydd. Mae'n help hefyd i greu calon wylaidd sy'n barod i gydnabod nad yw'n deall y cyfan ar yr olwg gyntaf a sy'n sychedig am glywed mwy. Mewn gair, dydi'r ddameg ddim yn creu arbenigwyr deallusol sy'n gwybod y cwbl, dim ysgolheigion hyd yn oed, dim ond plant sy'n dechrau dysgu a deall.

A dyna ddod â ni at ddywediad o eiddo Iesu, fod y Deyrnas yn perthyn i'r plentyn. Mae plant yn dibynnu ar eraill, yn ymddiried mewn pobl eraill. Byd y plentyn yw byd o chwilfrydedd, byd o ryfeddod a syndod. Creu'r elfennau hyn mae damhegion y deyrnas. Does dim gorfodaeth yma. Mae'r ddameg yn gweithio'n araf a phwyllog. Mae'n parchu'ch gwyleidd-dra. Mae'n eich gadael i ddarganfod drosoch eich hun.

Trwy rym a thrais, trwy fomio, dinistrio a lladd mae teyrnasoedd y byd yn gweithredu. Mae Teyrnas Dduw yn symud ymlaen trwy storïau sy'n gallu cael eu hanwybyddu a'u camddeall a'u camddehongli.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Myfyrdod:

Arglwydd, ddoe ffoniodd ffrind,
cyfaill i Ti a mi,
a hynny'n annisgwyl,
gyda'i stori.

Daeth dyn a dynes
a'u dau blentyn,
i'r eglwys yng nghanol y dre,
yn gynnar un nos Fawrth.
Roedd y drysau ynghlo,

ond gwelodd y gofalwr,
sy'n byw yn y llofft,
y pedwar.
Pan gyrhaeddodd y gweinidog
cafwyd eu stori.

Ar ôl siwrne faith
cyraeddasant y fflat rownd y gornel o'r eglwys.
Roedd y cwbl a feddant mewn dau fag plastig du,
eu dillad a'u meddiannau prin,
a phum punt ar hugain mewn arian parod
i brynu bwyd (a dodrefn!).
Cyfeiriodd rhywun hwy i'r eglwys,
dyna eu noddfa a'u gobaith bellach.

O fewn tridiau daeth dyrnaid o bobl,
rhai â ffydd Fawr, rhai o ychydig ffydd, neu ddim o gwbl,
i gyflawni dyletswyddau bychain a disylw,
a chymenu aelwyd i deulu o Serbia, a'u croesawu.

Arglwydd, onid dyma ddameg yr Hedyn Mwstard?
Yn dy Deyrnas wyneb–i–waered
nac anghofiwn y pethau bychain sy'n cyflawni gwyrthiau mawr.

Gweddïo 2001-02

Emyn: 266 Caneuon Ffydd

Er bod y pedair efengyl yn amrywio o ran pwyslais, iaith, digwyddiadau i'w cynnwys a'u hepgor, maen nhw'n gytûn yn eu diweddglo. Dowch i ni edrych ar y pedair efengyl:

Mathew:
Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi." (*Mathew 28: 19-20*)

Marc:
"Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr Efengyl i'r greadigaeth i gyd."
(*Marc 16: 15*)

Luc:
"Ac yn awr yr wyf fi'n anfon arnoch yr hyn a addawodd fy Nhad; chwithau, arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth." (*Luc 24: 49*)

Ioan:
"Fel y mae'r Tad wedi fy anfon i, yr wyf fi yn eich anfon chwi."
(*Ioan 20: 21*)

Beth yw ystyr yr adnodau hyn?

Fedrwch chi ddim cadw cyfrinach y Deyrnas i chwi eich hun.

Rwyf fi yn eich anfon, fel yr anfonodd y Tad fi, i gyfathrebu neges y Deyrnas.

Fedrwch chi ddim gwneud hyn ohonoch eich hun; bydd rhaid i chi ddibynnu ar nerth yr Ysbryd Glân.

Bydd rhaid i chi groesi ffiniau diwylliant, traddodiad, iaith a hyd yn oed crefydd, er mwyn rhannu yr hyn yr ydych chi wedi ei ddysgu – y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd.

Y nod ydi'r byd i gyd – neges fyd-eang yw'r neges.

Roedd y syniad o genhadaeth fyd-eang yn syniad chwyldroadol. Doedd Iddewiaeth ddim yn grefydd genhadol, felly roedd comisiwn Iesu i'w ddisgyblion, yn syndod mawr. Crefydd fewnblyg oedd Iddewiaeth yng nghyfnod Iesu a'i nod oedd rhyddhau ei hun o afael y gorthrwm mawr – iau Rhufain a gosod y nod o fyw bywyd moesol o fewn y Gyfraith. Er i Dduw ddweud wrth Abram am adael ei wlad ac "ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear" (Genesis 12: 3), araf iawn fu'r Iddew i weld

arwyddocâd y geiriau hyn. Efallai iddynt weld hyn yn digwydd ryw ddydd pan fyddai'r genedl wedi ei rhyddhau. Cyhoeddi mae Iesu nad oes rhaid aros i hynny ddigwydd – gwasgarwch y fendith a lefarwyd gan Dduw wrth Abram yn awr. Mae Iesu wedi hyfforddi'r disgyblion i fyw ffordd y Deyrnas; mae'r amser wedi dod yn awr i chi hyfforddi eraill. Yn awr! Ewch!

A dyna gawn ni yn ail gyfrol Luc, sef llyfr yr Actau – y disgyblion yn cenhadu ar y dechrau ac yna Paul yn mynd â'r Efengyl i'r Cenedl-ddynion. Nod amgen ei weinidogaeth oedd 'cyhoeddi'r Deyrnas' (Actau 20: 25). Gwaith yr eglwys heddiw yw cyhoeddi'r Deyrnas.

Cwestiynau i'w trafod:

Beth yw eich barn chi am ddamhegion Iesu? Ydyn nhw'n rhywbeth mwy na storïau twt a thaclus? Ydio'n wir mai dim ond un gwirionedd penodol sy'n amlwg ymhob dameg? Yng ngoleuni'r oedfa hon a ddylen ni wneud astudiaeth fanylach, ddyfnach o'r damhegion?

Beth am yr elfen "guddiedig" yn nysgeidiaeth Iesu? Oni fyddai wedi gwneud mwy o wahaniaeth petai wedi datguddio'r dirgelion? Oni fyddai wedi dylanwadu mwy petai wedi aros yn ei unfan a chanolbwyntio ar un ardal yn hytrach na thrampio ar hyd y wlad?

Tybed ydyn ni'n dibynnu gormod ar ein hadnoddau a'n talentau ein hunain y dyddiau hyn? Ydyn ni'n rhoi lle i'r Ysbryd Glân yng ngweithgareddau'r Eglwys heddiw?

Fyddech chi'n dweud mai'r bobl fwyaf crefyddol yng nghyfnod Iesu oedd y rhai a anwybyddodd ei neges a'r lleiaf crefyddol a dderbyniodd ei neges? Ydi hyn yn wir heddiw?

Fyddech chi'n dweud mai prif bwrpas yr eglwys Gristnogol yw cenhadu? Pa mor ymarferol a rhesymol, mewn byd aml grefydd, ydi comisiwn Iesu i'w ddisgyblion am fynd i'r holl fyd a phregethu yr Efengyl? Sut fyddai'r Mwslim, er enghraifft, yn ymateb i hyn?

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Emyn: 259 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Arglwydd Iesu Grist,
a ddaethost i'n plith o fynwes y Tad;
a aethost o amgylch gan wneud daioni;
a anfonaist dy ddisgyblion cyntaf
i estyn dy deyrnas yn y byd:
yr wyt yn ein galw ninnau,
yn ein hoes a'n cenhedlaeth,
i gymryd ein lle o fewn mudiad cenhadaeth dy bobl,
allan i holl gyrion y ddaear
ac ymlaen hyd diwedd amser.

Cofiwn dy gomisiwn i'th eglwys
i fynd i'r holl fyd i gyhoeddi'r newyddion da,
a'th addewid o'th bresenoldeb gyda ni bob amser.

Dywedodd Iesu, 'Ewch a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd.....'
Diolch i ti, Arglwydd,
am y rhai fu'n ufudd i'th orchymyn
ac a fentrodd i barthau pell a dieithr
i fynegi dy wirionedd mewn gair a gweithred –
apostolion, saint a chenhadon,
efengylwyr, athrawon a meddygon.
Gwna ninnau'n barod i gael ein hanfon,
ac i ymateb i alwad ac i antur y deyrnas.

Dywedodd Iesu, 'Ewch, a bedyddiwch yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân....'
Diolch i ti, Arglwydd,
am i ni, drwy ein bedydd,
ddod yn aelodau o deulu byd-eang dy eglwys;
am ein brodyr a'n chwiorydd ym mhob gwlad

sy'n arddel dy enw ac yn dy wasanaethu.
Cynnal dystiolaeth eglwysi ifanc y byd;
y rhai sy'n mynegi dy gariad mewn gwledydd tlawd;
y rhai sy'n dioddef gwrthwynebiad ac erlid,
a'r rhai sy'n profi llwyddiant a chynnydd.

Dywedodd Iesu, 'Ewch, gan ddysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi....'
Diolch i ti, Arglwydd,
am wasanaeth dy eglwys i'r byd:
am ei gwaith addysgol mewn ysgolion a cholegau;
am ymdrechion meddygon a gweinyddesau,
yn iacháu cleifion ac yn dysgu gwyddor glendid;
am y rhai sy'n bwydo'r newynog a'r anghenus
ac yn dysgu'r tlawd i drin y tir.
Gwna ni'n fwy parod i estyn iddynt
ein cymorth a'n cefnogaeth.

Dywedodd Iesu, 'Ewch, ac yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd....'
Diolch i ti, Arglwydd,
am dy gwmni a'th gymorth i'th genhadon ymhob man:
cadw eu hysbryd rhag diffygio yn wyneb anawsterau;
ymgeledda'r rhai sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd unig;
amddiffyn y rhai sy'n wynebu peryglon,
a gwna ni oll, yn ein cylchoedd ein hunain,
yn weithwyr defnyddiol yn dy winllan;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Munud i feddwl:

Ydych chi wedi eistedd mewn eglwys gadeiriol enfawr yn edrych o'ch cwmpas ar y bensaernïaeth a chywreinrwydd yr adeilad? A thra rydych chi'n eistedd yn fan'no mae yna bobl yn gweu o'ch cwmpas

ymhob man – twristiaid ydi'r mwyafrif ohonyn nhw. Pob un â'i gamera yn fflachio i gael llun neu ddau i fynd adref gyda nhw. Ond ble mae'r addolwyr? Ar y Sul efallai. Dyna i gyd. Mae'r grefydd Gristnogol yn dal ati i ganu, a phregethu a dysgu am Iesu, ond tybed, mewn sawl lle mae'n nhw wedi anghofio neu gamddeall neges guddiedig Iesu. Gan ein bod wedi camddeall neges ganolog yr efengyl guddiedig rydyn ni fel halen heb flas a channwyll heb olau – mor ddiflas fel nad ydi pobl eisiau gwrando na gweithredu. Efallai ein bod yn gwybod y cwbl ar sut i fod yn Eglwyswr da neu Fethodist da ond ydyn ni'n gwybod sut i fyw egwyddorion y deyrnas yn ein bywyd bob dydd, ar yr aelwyd, yn y gwaith, yn y gymdeithas a hyd yn oed yn ein capeli a'n heglwysi?

Efallai ein bod wedi argyhoeddi pobl i fod yn "neis" yn y deyrnas fydol ond heb eu tanio a'u argyhoeddi i dreulio a byw eu hamser a'u hadnoddau yn chwyldro deinamig Teyrnas Dduw ar y ddaear. Tybed a oedd Karl Marx yn iawn pan ddywedodd ein bod yn defnyddio crefydd fel cyflwr i'n tawelu rhag gorfod wynebu drygau'n hoes?

Mae gen i biti mawr dros Iesu. Ein bod ni wedi dofi, glastwreiddio, bychanu a hyd yn oed wedi difetha yr hyn ddechreuodd o ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Ond mae gen i freuddwyd y gwelaf ryw ddydd:
blant ac ieuenctid unwaith eto yn ymateb i neges guddiedig y Deyrnas,
yr hen syniad o 'weinidogion/offeiriaid' a 'chynulleidfa' fel dwy elfen ar wahân yn diflannu am byth a phob un ohonon ni'n blant y deyrnas,
yr eglwysi yn gweithio yn y gymuned ac nid yn disgwyl i'r gymuned ddod atyn nhw.
Efallai eich bod yn teimlo fod gennych swydd ddiflas, undonog, arwynebol ac isel. Edrychwch ar eich swydd fel rhan o rwydwaith y Deyrnas ar y ddaear. Mae Duw eich angen chi a'ch doniau yng ngwaith ei Deyrnas.

Cyfle i fyfyrio:

Emyn: 279.

Y Fendith:

Arglwydd, dyma fi.
Anfon fi i wneud dy waith. Amen.